# LLESIANT POBL IFANC

# ADRODDIAD CRYNO

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

MEDI 2019

# CYNNWYS

Ynglŷn a'r adroddiad hwn 3

Rhai o brif ganfyddiadau ein gwaith 5

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
Mae croeso i chi ein ffonio yn y Gymraeg a'r Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Mae'r adroddiad yma wedi cael ei baratoi i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

Yr oedd tîm astudiaethau Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Mark Jeffs, Rachel Harries, a Verity Winn o dan arweinyddiaeth Matthew Mortlock.

# YNGLŶN A'R ADRODDIAD HWN


## Ynghylch ein gwaith o ran llesiant pobl ifanc

### Cydweithio

Rydym wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau eraill i archwilio thema gyffredin, sef 'Ieuenctid'. Cyhoeddodd yr arolygiaeth addysg, Estyn, ei hadroddiad ar **wasanaethau cymorth ieuenctid** ym mis Gorffennaf 2018. Cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ei **hadolygiad o wasanaethau gofal iechyd i bobl ifanc** ym mis Mawrth 2019. Cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Cymru **ei hadroddiad ar blant a phobl ifanc** sydd wedi bod mewn gofal ym mis Mehefin 2019.

### Ein gwaith ni

Fe edrychom ni ar waith Llywodraeth Cymru i gefnogi llesiant pobl ifanc yng Nghymru. Mae llesiant yn gysyniad eang, felly rydym wedi canolbwyntio ein gwaith ar bum pwnc: digartrefedd ieuenctid; oedolion ifanc sy'n ofalwyr; rhieni ifanc; iechyd meddwl; a sgiliau a chyflogadwyedd. Rydym yn cyhoeddi saith cynnyrch yn seiliedig ar ein gwaith, gan gynnwys yr adroddiad hwn. Mae'r diagram isod yn darparu dolen i bob cynnyrch.



Mae ein hadroddiadau am bob un o'r pum maes a restrir uchod yn rhoi gwybodaeth gefndir am y testunau. Maent yn cynnwys ffeithiau a ffigurau perthnasol, trosolwg ar yr hyn y mae Llywodraeth Cymru'n ceisio ei gyflawni, a manylion am y sefydliadau a'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â chynorthwyo pobl ifanc. Mae'r adroddiadau hefyd yn pennu cyfleoedd i wella. Mae'r adroddiad hwn yn trin a thrafod y materion cyffredin a ddaeth i'r amlwg o'n gwaith ar y testunau penodol.

Mae **ein hofferyn data rhyngweithiol** yn defnyddio data o wahanol ffynonellau i ddangos pa mor dda y mae pobl ifanc yn ei wneud mewn gwahanol rannau o'u bywydau. Mae'r offeryn yn cynnwys cymariaethau ledled Cymru fesul rhyw a fesul grŵp oedran lle bo modd.

# RHAI O BRIF GANFYDDIADAU EIN GWAITH

Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar rai 16-24 oed. Mae angen cymorth ar bob person ifanc pan fydd yn tyfu i fod yn oedolyn. Mae angen cymorth ar rai ar adegau pwysig yn eu bywydau. Gall eraill wynebu problemau o dro i dro y gellir eu goresgyn drwy ddarparu'r cymorth iawn. Mae rhai pobl ifanc yn wynebu problemau cymhleth a all fod yn gysylltiedig â'i gilydd ac a all waethygu os na ddarperir y cymorth iawn. Bydd y rhan fwyaf o bobl ifanc yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt gan eu teulu, eu ffrindiau, a gwasanaethau cyffredinol fel ysgolion a cholegau. Ond mae angen cymorth mwy arbenigol ar eraill.

Gosodwyd ein gwaith yng nghyd-destun ehangach y broses o drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus fel y'i nodir yng nghynlluniau a deddfau amrywiol Llywodraeth Cymru, fel **Ffyniant i Bawb**, **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**, a **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** a'i fframwaith ategol **Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Dylunio Gwasanaethau**. Yn y dogfennau hyn ac eraill, mae Llywodraeth Cymru'n nodi y dylai gwasanaethau cyhoeddus gydweithio i ganolbwyntio ar 'yr hyn sydd o bwys' i bobl a gweithio ar sail cydgynhyrchu[1]. I weithio mewn ffordd fwy cydweithredol ac integredig, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y bydd rhaid defnyddio 'ffordd wahanol iawn o weithio', er enghraifft drwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol[2].

Mae Llywodraeth Cymru'n ceisio llunio polisïau a gwasanaethau sy'n rhoi sylw i anghenion pawb yng Nghymru. Serch hynny, mae'n cydnabod bod gan wahanol grwpiau poblogaeth wahanol anghenion a bod polisïau'n effeithio arnynt mewn gwahanol ffyrdd. Buom yn canolbwyntio ar wasanaethau i bobl ifanc mewn pum maes er mwyn deall pa mor dda y mae Llywodraeth Cymru'n cydgysylltu ei meysydd polisi a pha effaith y mae ei dull o gynllunio'n strategol yn ei chael ar y bobl ifanc eu hunain.

Mae llawer o sefydliadau'n cynorthwyo pobl ifanc. Er nad yw Llywodraeth Cymru'n darparu gwasanaethau rheng flaen, mae ganddi rôl arwain bwysig, er enghraifft o ran pennu polisïau a chanllawiau, gwneud penderfyniadau penodol o ran arian, ac ystyried pa mor dda yw perfformiad gwasanaethau cyhoeddus. Nid ydym wedi cynnal archwiliad cynhwysfawr o lesiant pobl ifanc Cymru a'r gwasanaethau sy'n eu cynorthwyo. Fodd bynnag, gan ddibynnu'n rhannol ar ganfyddiadau adolygiadau eraill, mae ein gwaith yn dangos nad oes digon o gymorth ar gael mewn rhai meysydd pwysig y mae angen i wasanaethau cyhoeddus fynd i'r afael â nhw.

TROEDNODION

1 Cynnwys pobl yn y broses o wneud penderfyniadau ac o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yw cydgynhyrchu. Yn aml fe'i diffinnir fel gweithio 'gyda' phobl yn hytrach na gwneud pethau 'i' bobl. Ceir cysylltiad agos rhyngddo a dulliau 'sy'n seiliedig ar asedau' sy'n annog gwasanaethau cyhoeddus i weithio ar sail y cryfderau ym mywydau pobl yn hytrach na'r diffygion.

2 Mae ein hadroddiad diweddar am y **Gronfa Gofal Integredig** yn ystyried rôl y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ac rydym wrthi'n cynnal adolygiad o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar adolygiad ehangach o'r partneriaethau strategol.

Canfuwyd bod y rheini sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn aml yn rhwystredig oherwydd na allant ddarparu cymorth yn y ffyrdd yr hoffent wneud hynny. Ar rai adegau, mae staff yn teimlo bod rhaid iddynt wneud penderfyniadau nad ydynt er budd y person ifanc oherwydd nad oes darpariaeth briodol ar gael. Mae pobl ifanc sy'n agored i niwed yn cael bod rhaid iddynt blethu edeifion gwasanaethau tameidiog ynghyd. Buom yn ceisio deall pam fod hyn yn digwydd, a daethom o hyd i rai problemau cyffredin ar draws gwahanol feysydd polisi. Buom yn canolbwyntio ar yr hyn y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i wella llesiant pobl ifanc, ond rydym yn sylweddoli ei bod yn dibynnu ar sefydliadau eraill i ddarparu gwasanaethau ac i gefnogi gwelliannau, ac mai bwriad Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod gan ddarparwyr gwasanaethau hyblygrwydd i ymateb i anghenion a blaenoriaethau lleol. Mae ein hadroddiadau am feysydd testun unigol yn rhoi mwy o fanylion.


Yn gyffredinol, rydym yn credu bod tri maes eang lle ceir cyfleoedd i wella, fel y nodir isod. Mae llawer o'r materion a godwyd gan ein gwaith yn berthnasol i'r broses ehangach o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Maent hefyd yn adleisio canfyddiadau ein rhaglen ehangach o waith archwilio dros y blynyddoedd diwethaf. Wrth inni bennu'r cyfleoedd hyn, rydym yn sylweddoli bod Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio ar ffyrdd o integreiddio ei dull ei hun o weithredu yn well, a'i bod yn parhau i gydweithio â'r sector cyhoeddus i gydgysylltu gwasanaethau. Mae hefyd yn ystyried ei rôl hithau, a rôl sefydliadau eraill, o ran sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu anghenion y boblogaeth.

### Bod yn chwilfrydig




Dod i wybod mwy am yr hyn sydd o bwys i bobl ifanc a'u profiadau, y cymorth sydd ar gael iddynt, a faint o wahaniaeth y mae'n ei wneud.

### Bod yn fwriadus



Mynegi bwriad clir ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus sy'n ysbrydoli ac yn grymuso pobl i gydweithio â'i gilydd i wella llesiant pobl ifanc.

### Bod yn ddewr



Annog pobl i arbrofi, i gymryd risgiau wedi'u rheoli'n dda, ac i ddathlu llwyddiant.

## Bod yn chwilfrydig



Rydym yn credu bod angen gwrando mwy ar bobl ifanc a deall yr hyn sydd o bwys iddynt, eu profiad o ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus, ac i ba raddau y mae gwasanaethau'n diwallu eu hanghenion. I wneud hyn, byddai modd defnyddio'r wybodaeth a'r ymchwil sy'n bodoli eisoes yn well, er enghraifft i ddeall y tueddiadau cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg o asesiadau lleol, a dadansoddi mwy o gwestiynau **Arolwg Cenedlaethol Cymru** yn ôl oedran. I lywio ei phroses llunio polisïau ei hun, rydym hefyd yn credu y gallai Llywodraeth Cymru gydweithio â sefydliadau eraill i ddeall yn well farn staff rheng flaen, effaith ei chynlluniau a'i chanllawiau, a'r ffordd y cânt eu defnyddio.

Rydym yn credu bod angen deall yn well pa wasanaethau sy'n bodoli ymhle, gan gynnwys drwy helpu i bennu bylchau ac achosion o ddyblygu. Gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i goladu gwybodaeth am wasanaethau lleol gan sefydliadau sy'n bartneriaid, a sicrhau bod gan wasanaethau ddigon o gapasiti cyn cyhoeddi cynlluniau newydd sy'n rhoi mwy o gyfrifoldebau i'r sefydliadau a'r unigolion hynny.

Ar ôl degawd o doriadau, mae llawer o wasanaethau dan bwysau. Roedd llawer o'r bobl y buom yn siarad â nhw'n teimlo bod y cyfnod o gyni wedi taro pobl ifanc yn arbennig o galed, gyda thoriadau i gyllid llawer o'r gwasanaethau y mae pobl ifanc yn dibynnu arnynt. Rydym yn sylweddoli nad oes modd taro cydbwysedd perffaith ac y byddai'n anodd i Lywodraeth Cymru gyfrif yn union faint o arian sy'n cael ei wario ar bobl ifanc. Serch hynny, yn y meysydd y buom yn ymchwilio iddynt, roeddem yn teimlo y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i ddeall yn fras beth sy'n cael ei wario ar wasanaethau penodol i bobl ifanc fel rhan o'r broses o asesu effaith ei phenderfyniadau cyllido.

Rydym yn credu y gallai Llywodraeth Cymru fesur yn well y gwahaniaeth y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei wneud, a gwneud mwy i ddeall ei chyfraniad hithau. Yn ein hadroddiad a gyhoeddwyd yn 2015, **Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus**, tynnwyd sylw at yr ymdrechion yn yr Alban i ddefnyddio dull 'canlyniadau personol' sy'n gysylltiedig â mesurau sefydliadol, rhanbarthol a chenedlaethol o effaith. Mae'n galonogol bod y dull hwn yn cael ei addasu ar gyfer gwaith ym maes gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, mae dyheadau Llywodraeth Cymru i greu gwasanaeth cyhoeddus sy'n seiliedig ar 'yr hyn sydd o bwys' i unigolion yn awgrymu bod angen canolbwyntio mwy ar y graddau y mae pobl yn well eu byd mewn ffyrdd sydd o bwys iddyn nhw.

## Bod yn fwriadus

Yn Ffyniant i Bawb, mae Llywodraeth Cymru'n nodi ei hamcan i 'helpu pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial'. Gosodir yr amcan yng nghyd-destun cyflogadwyedd a sgiliau, ond mae'n berthnasol i'r rhan fwyaf o'r gwaith y mae gwasanaethau cyhoeddus a'u partneriaid yn ei wneud gyda phobl ifanc, os nad yr holl waith hwnnw. Tu hwnt i'r amcan hwn, amlinellir gweledigaethau a blaenoriaethau ar gyfer materion sy'n effeithio ar bobl ifanc mewn amryw o gynlluniau a dogfennau cyfarwyddyd cenedlaethol a lleol. Nid ydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru o reidrwydd lunio dogfen strategaeth newydd ar gyfer pobl ifanc. Ond rydym yn credu y gallai wneud mwy i sicrhau bod y neges am yr hyn y mae am ei gyflawni, ynghyd â'r canllawiau perthnasol, yn rhaeadru drwy'r sefydliadau sy'n bartneriaid i'r staff rheng flaen. Daethom ar draws achosion lle roedd yn amlwg nad oedd hyn yn digwydd.

Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â sefydliadau sy'n bartneriaid i asesu a yw deddfwriaeth, partneriaethau, cynlluniau, fframweithiau rheoli perfformiad, amodau contractau, a threfniadau eraill yn rhwystro pobl rhag cydweithio i gyflawni diben cyffredin neu'n eu cynorthwyo i wneud hynny. Dylai fod yn amlwg i'r rheini sy'n gweithio ar y rheng flaen eu bod yn cael eu hannog, eu grymuso a'u cefnogi i wneud y peth iawn, yn unol â'r diben hwnnw, hyd yn oed os yw'n ofynnol iddynt herio seilos a phrosesau sefydliadol sy'n eu rhwystro.

Mae'n hanfodol bod yn glir ynghylch atebolrwydd, a'i gysylltu â diben cyffredin. Rydym yn credu y gallai Llywodraeth Cymru ddysgu o'r hyn sydd wedi gweithio a'r hyn nad yw wedi gweithio yn y gorffennol, ac y gallai nodi'n gliriach:

- **a** ei rôl hithau, a'r union bethau y mae'n gyfrifol ac yn atebol amdanynt;
- **b** sut y bydd yn gwybod ei bod hithau wedi llwyddo – gan gynnwys mynd ati mewn gwerthusiadau i ystyried yn fanylach ei rôl hithau o ran creu'r amodau lle mae rhaglenni'n llwyddo neu'n methu;
- **c** a fydd yn dwyn sefydliadau eraill i gyfrif, a sut y bydd yn gwneud hynny;
- **ch** y cydbwysedd rhwng hyblygrwydd a chysondeb, gan fod canolbwyntio ar 'yr hyn sydd o bwys' i bob unigolyn yn awgrymu y bydd natur gwasanaethau'n amrywio, ond nid o reidrwydd eu hansawdd.

## Bod yn ddewr

Canfuwyd bod pobl sy'n gweithio ar y rheng flaen yn awyddus i weithio mewn ffordd wahanol a bod llawer o enghreifftiau o arloesi lleol. Ond mae rhai sefydliadau'n ymgodymu â ffyrdd newydd o weithio. Pan fyddant yn rhoi cynnig ar ddulliau newydd, bydd angen i wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y rheini sy'n gyfrifol am adolygu a chraffu allanol, groesawu'r parodrwydd i gymryd risgiau wedi'u rheoli'n dda a derbyn y posibilrwydd na fydd rhai pethau'n gweithio.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cefnogi ffyrdd arbrofol o weithio, gan gynnwys drwy raglenni cyllido penodol. Serch hynny, yn y meysydd y buom yn ymchwilio iddynt, roeddem yn teimlo y gallai Llywodraeth Cymru chwarae rôl fwy gweithredol i hybu ac i alluogi arloesi ac arbrofi. Gallai rannu neges sy'n ysbrydoli ynghylch pwysigrwydd rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio. Gall hefyd greu amodau lle mae pobl yn teimlo'n ddigon diogel i arbrofi â ffyrdd newydd o drefnu ac o gydweithredu, gan gefnogi newid heb fynd ati o reidrwydd i bennu'n union beth yw hyd a lled pob gwasanaeth.

Rydym hefyd yn credu y gallai Llywodraeth Cymru arbrofi â'r opsiynau ymarferol sydd ar gael iddi fel llywodraeth. Yn aml, mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i fater drwy lunio strategaeth neu gyfraith neu drwy sefydlu cynllun grant newydd sy'n targedu gwasanaethau lleol. Ond rydym yn credu y gallai Llywodraeth Cymru roi cynnig ar syniadau eraill i newid ei dull o weithredu. Gallai hyn gynnwys chwarae rhan fwy uniongyrchol i ddeall yn union sut mae gwasanaethau'n gweithio, a chydweithio â gwasanaethau cyhoeddus i ddymchwel rhwystrau ac i ddysgu ar y cyd.

Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael i Lywodraeth Cymru yng ngwerthusiadau rhaglenni fel **Teuluoedd yn Gyntaf** a **Dechrau'n Deg**. Rydym yn credu y gallai wneud mwy i rannu'r gwersi hyn tu hwnt i'r timau neu'r adrannau sy'n gyfrifol am y rhaglenni hynny. Yn ogystal â rhannu gwersi'n fewnol, rydym hefyd yn credu y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i rannu ac i ddathlu'r gwersi sy'n deillio o waith llwyddiannus sydd wedi cael effaith.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2019

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**